# YMWELIADAU SAFLEOEDD CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Awst, 2016

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ann Griffith (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jeff Evans, John Griffith, Kenneth Hughes, Victor Hughes (ar gyfer cais 1 yn unig) |
| **WRTH LAW:** | Swyddog Cynllunio (MD)<br>Swyddog Priffyrdd (JAR)<br>Uwch Swyddog y Dirwedd a Choed (EH) (ar gyfer cais 2 yn unig) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim wedi eu derbyn |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Aelod Lleol: Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (ar gyfer cais 1) |

---

**1. 25C255A – Cais amlinellol i godi annedd gyda'r holl faterion wedi eu cadw'n ôl ar dir yn Tan Rallt, Carmel**

Eglurodd y Swyddog Cynllunio'r cynigion a dangosodd y safle. Nododd yr Aelod Lleol fod y safle o fewn y cyfyngiad cyflymder ac roedd o'r farn bod y cais o fewn ffiniau'r anheddiad. Gwnaed sylwadau ynglyn ag esbonio'r polisi clwstwr ac ynglyn â'r ffin.

**2. 20C310B/EIA/RE – Cais llawn i godi fferm arae heulol 49.99mw ynghyd ag offer cysylltiedig, seilwaith a gwaith ategol ar dir ger Rhyd y Groes, Rhosgoch**

Dangoswyd y safle i'r aelodau o wahanol lecynnau. Cyfeiriodd y Swyddog Priffyrdd at y trafodaethau sy'n parhau i fynd rhagddynt mewn perthynas â'r fynedfa i'r safle yn ystod y gwaith adeiladu ac ar ôl hynny.

**Y Cynghorydd Ann Griffith**
**(Cadeirydd)**